

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A5 (LLYN  
OGWEN, BWRDEISTREF SIROL CONWY)  
(GWAHARDD AROS) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 4(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n dod i rym ar 21 Mawrth 2023.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd aros ar unrhyw adeg, ar unrhyw ddiwrnod ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 17 Mawrth 2023, gellir edrych ar gopi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a wnaed a'r plan yn: Partneriaeth Ogwen, 26 Stryd Fawr, Bethesda LL57 3AE. Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd> neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at y Gangen Orchymynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1614112.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

- a. nad yw o fewn pwerau perthnasol Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984; neu
- b. na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r gofynion perthnasol,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos i 16 Mawrth 2023, wneud cais i'r Uchel Lys i atal dros dro neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo.

**Gellir gweld copi o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn a'r Plan ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd> neu gellir eu cael mewn print bras yn rhad ac am ddim drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1614112.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**THE A5 TRUNK ROAD (LLYN OGWEN,  
CONWY COUNTY BOROUGH) (PROHIBITION  
OF WAITING) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 1(1), 2(1), 2(2) and 4(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 21 March 2023.

The effect of the Order is to prohibit waiting at any time, on any day on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

During a period of 6 weeks from 17 March 2023, a copy of this Notice, the made Order and plan may be inspected at Partneriaeth Ogwen, 26 High Street, Bethesda LL57 3AE. The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or may be obtained free of charge by writing to the Orders Branch at the address below, quoting reference number qA1614112.

If any person desires to question the validity of the Order, or of any provisions contained therein on the grounds:

- c. that it is not within the relevant powers of the Road Traffic Regulation Act 1984; or
- d. that any of the relevant requirements have not been complied with,

that person may, within 6 weeks of 16 March 2023, apply to the High Court for the suspension or quashing of the Order or of any provision contained therein.

**A copy of this Notice, the Order and plan can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders> or obtained in larger print free of charge by writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ quoting reference number qA1614112.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

## YR ATODLEN

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 2,447 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,339 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1,475 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,995 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

## SCHEDULE

The length of the northern side of the trunk road that extends from a point 66 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 2,447 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 66 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 1,339 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 1,475 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 1,995 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.